



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Adroddiad Blynyddol 2019-20

Gorffennaf 2020

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Adroddiad Blynyddol 2019-20

Cynulleidfa

Awdurdodau Lleol Cymru; Tribiwnlys Prasio Cymru ac eraill yn y sectorau llywodraeth leol a lles.

Trosolwg

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â rhoi Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar waith yng Nghymru yn ystod 2019-20.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: CouncilTaxSupport@llyw.cymru

Copiau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon a rhai'r gorffennol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/cynllun-gostyngiadau-dreth-gyngor-adroddiadau-blynyddol>

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	3
1. Y Cefndir	5
2. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru: Llwyth Achosion a Gwerth Gostyngiadau	6
2.1 Llwyth achosion diwedd blwyddyn 2019-20	6
2.2 Gwerth y gostyngiadau ar gyfer diwedd blwyddyn 2019-20.....	7
2.3 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau fel canran o'r aelwydydd atebol.....	8
3. Tueddiadau a Phatrymau.....	9
3.1 Gair am y fethodoleg.....	9
3.2 Y llwyth achosion cyffredinol.....	10
3.3 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl oedran ac awdurdod lleol	11
3.4 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl gwerth dyfarniad ...	13
3.5 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl statws pasportio....	14
3.7 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl math o deulu.....	18
3.8 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl band treth gyngor..	19
4. Meysydd Disgresiwn Lleol.....	21
5. Apeliadau	22
5.1 Tribiwnlys Prisio Cymru	22
Atodiad A: Ystadegau ychwanegol y Cynllun Gostyngiadau ar gyfer 2019-20	23

Mynegai o'r Ffigurau

Ffig 1: Llwyth achosion y cynllun gostyngiadau yng Nghymru, mis Mai 2013 i fis Mawrth 2020.....	10
Ffig 2: Cyfran yr aelwydydd sy'n derbyn gostyngiad yn ôl oedran, mis Mawrth 2020	11
Ffig 3: Canran yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad yn y dreth gyngor, yn ôl dyfarniad llawn neu rannol, mis Mawrth 2020	13
Ffig 4: Cyfran yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad treth gyngor, yn ôl statws pasbortio.....	14
Ffig 5: Newidiadau i'r llwyth achosion yn ôl statws incwm, mis Mawrth 2020...15	
Ffig 6: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl math o deulu, mis Mawrth 2019 i fis Mawrth 2020.....	18
Ffig 7: Canran y llwyth achosion cyffredinol yn ôl band treth gyngor, mis Mawrth 2020.....	19
Ffig 8: Cyfran aelwydydd y Cynllun Gostyngiadau yn ôl band treth gyngor, Mawrth 2020 (a).....	20

Mynegai o'r Tablau

Tabl 1: Y Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru: llwyth achosion a gwerth gostyngiadau 2019-20 (a)	6
Tabl 2: Achosion y Cynllun Gostyngiadau o'u cymharu â'r holl aelwydydd atebol, 2019-20	8
Tabl 3: Apeliadau i Dribiwnlys Prisio Cymru ar gyfer 2019-20.....	22

Atodiad A – Tablau

Tabl A1: Lefelau'r dreth gyngor 2019-20	23
Tabl A2: Llwyth achosion byw y Cynllun Gostyngiadau, mis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020.....	24
Tabl A3: Ffigurau llwyth achosion byw y Cynllun Gostyngiadau yn ôl grŵp oedran, mis Mawrth 2020 (a).....	25
Tabl A4: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl statws incwm, mis Mawrth 2020.....	26
Tabl A5: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl math o deulu, mis Mawrth 2020.....	27
Tabl A6: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl band treth gyngor, mis Mawrth 2020 (a)	28

Crynodeb Gweithredol

Ar 1 Ebrill 2013, cafodd Budd-dal y Dreth Gyngor yng Nghymru ei ddisodli gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (y Cynllun Gostyngiadau) a chafodd aelwydydd cymwys eu trosglwyddo'n awtomatig i'r cynllun newydd. Mae rheoliadau'r Cynllun Gostyngiadau yn seiliedig i raddau helaeth ar yr hen reolau ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor. Roedd hyn yn sicrhau bod aelwydydd yn cadw'u hawl i gael cymorth i fodloni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor.

Yn 2013-14, rhoddodd Llywodraeth Cymru £244m i awdurdodau lleol fel y gallent roi'r cymorth llawn y mae gan bob aelwyd gymwys yr hawl i'w gael. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal y trefniadau ariannu hyn bob blwyddyn ers hynny.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am roi'r Cynllun Gostyngiadau ar waith yng Nghymru yn ystod 2019-20, gan helpu i sicrhau tryloywder mewn maes sy'n dal i gael cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r data diwedd blwyddyn yn dangos y canlynol¹:

- Roedd 275,042 o aelwydydd yng Nghymru yn cael gostyngiad yn y dreth gyngor yn 2019-20, o'i gymharu â 277,989 yn 2018-19, sef 2,947 o achosion yn llai (1.1%).
- Cyfanswm gwerth y gostyngiadau a roddwyd drwy'r Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru yn 2019-20 oedd tua £271.9m, o'i gymharu â £260.9m yn 2018-19, sef cynnydd o tua £11m (4.0%).

Mae'r data ynghylch llwyth achosion 'agored' misol yn dangos y canlynol²:

- Roedd 110,744 o aelwydydd pensiynwyr yng Nghymru yn cael gostyngiad yn y dreth gyngor drwy'r Cynllun Gostyngiadau ym mis Mawrth 2020, o'i gymharu â 113,966 ym mis Mawrth 2019. Mae hyn yn golygu bod llwyth achosion pensiynwyr 3,222 (2.8%) yn llai.
- Roedd 165,643 o aelwydydd oedran gweithio yng Nghymru yn cael gostyngiad yn y dreth gyngor ym mis Mawrth 2020, o'i gymharu â 165,188 ym mis Mawrth 2019, sef cynnydd o 455 o achosion (0.3%).
- O'r 276,422 o aelwydydd yng Nghymru a oedd yn derbyn gostyngiad, nid oedd 216,803 yn talu unrhyw dreth gyngor o gwbl.
- Ym mis Mawrth 2020, roedd 54.7% o'r aelwydydd a oedd yn cael gostyngiad yn achosion wedi'u pasbortio, a 23.7% yn achosion safonol heb eu pasbortio. Roedd 21.6% o'r aelwydydd a oedd yn cael gostyngiad yn derbyn y Credyd Cynhwysol.
- Y Credyd Pensiwn oedd y math mwyaf cyffredin o achos wedi'i basbortio, ac roedd yn cyfrif am oddeutu 24% o holl achosion y Cynllun Gostyngiadau.
- Roedd 85.0% o'r aelwydydd a oedd yn cael gostyngiad yn y dreth gyngor drwy'r Cynllun Gostyngiadau yn byw mewn eiddo ym Mandiau A i C ym mis Mawrth 2020, sef yr un gyfran ag ym mis Mawrth 2019.

¹ Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno ffigurau diwedd blwyddyn i Lywodraeth Cymru. Doedd ffigurau 2019-20 ddim wedi cael eu dilysu pan gyhoeddwyd y ddogfen hon.

² Daw'r data am lwyth achosion 'agored' misol o fodel rhagamcanu. Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg ar gael yn Adran 3.

- Cafodd Tribiwnlys Prisio Cymru 29 apêl newydd a oedd yn ymwneud â'r Cynllun Gostyngiadau yn ystod 2019-20, o'i gymharu â 17 yn ystod 2018-19.

1. Y Cefndir

Yn yr Adolygiad o Wariant yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bwriad i ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor, ac i roi cyfrifoldeb i awdurdodau lleol yn Lloegr dros ddatblygu trefniadau newydd. Ar yr un pryd, cyhoeddodd gynlluniau i drosglwyddo cyllid i'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban, gan ddisgwyl y bydden nhw'n sefydlu trefniadau newydd. Cafodd y cyllid i roi cymorth ar gyfer y dreth gyngor ei drosglwyddo o gyllidebau seiliedig ar alw i gyllidebau sefydlog, gan ei chwtogi 10%.

Ar 1 Ebrill 2013, cafodd Budd-dal y Dreth Gyngor yng Nghymru ei ddisodli gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a chafodd ymgeiswyr cymwys eu trosglwyddo'n awtomatig i'r cynlluniau newydd. Roedd y rheoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 wedi'u seilio'n agos ar y rheolau blaenorol ar ostyngiadau'r dreth gyngor i gynnal yr hawl i gymorth. Rhoddwyd rhywfaint o ddisgresiwn lleol i'r awdurdodau lleol hefyd, sy'n galluogi pob un ohonynt i ystyried anghenion a blaenoriaethau eu hardal leol.

Darparwyd £244m yn y setliad llywodraeth leol ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau yn 2013-14. Cafodd cyllideb sefydlog o £222m ei throsglwyddo gan Lywodraeth y DU. Rhoddodd Llywodraeth Cymru £22m ychwanegol i helpu awdurdodau lleol i barhau i roi'r cymorth llawn y mae gan bob aelwyd gymwys yr hawl i'w gael. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gynnal y trefniadau hyn bob blwyddyn ers hynny. Mae hefyd wedi parhau i gynnal yr holl hawliau i gymorth o dan y cynllun: Felly mae newidiadau yn niferoedd llwythi achosion yn adlewyrchu newidiadau yn nifer yr aelwydydd sy'n defnyddio ac yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cymorth.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn darparu data ar gyfer Cymru ar lwyth gwaith cyffredinol diwedd y flwyddyn a gwerth gostyngiadau yn 2019-20 yn seiliedig ar ddata rheoli achosion. Mae hefyd yn darparu dadansoddiad o'r tueddiadau a'r patrymau ers i'r Cynllun Gostyngiadau gael ei gyflwyno. Mae'r holl ffigurau sy'n ymwneud â gwerth gostyngiadau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf. Nid yw'r adroddiad yn ystyried newidiadau mewn llwythi achosion na chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor o ganlyniad i effaith y pandemig Covid-19. Bydd yr effeithiau hyn yn ymddangos yn adroddiad 2020-21.

Mae **Atodiad A** yn rhoi ystadegau ychwanegol ar gyfer 2019-20, sydd heb eu cynnwys yn y prif adroddiad.

Mae amlinelliad o'r prif reoliadau sy'n cyflwyno'r Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru – gan gynnwys sawl set arall o reoliadau yn ymwneud, er enghraifft, ag ymchwilio i dwyll, rhannu gwybodaeth ac apeliadau – wedi'i gynnwys yng [Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Adroddiad Blynyddol 2013-14](#). Mae'r adroddiad hefyd yn egluro'n fanylach y meini prawf cymhwysedd a sut mae gostyngiadau'n cael eu cyfrifo.

2. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru: Llwyth Achosion a Gwerth Gostyngiadau

2.1 Llwyth achosion diwedd blwyddyn 2019-20

Casglwyd data diwedd blwyddyn gan awdurdodau lleol ynghylch cyfanswm y llwyth achosion ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Mae 'llwyth achos' yn cyfeirio at *aelwydydd* yn hytrach nag unigolion. Mewn geiriau eraill, mae rhai achosion yn cyfeirio at unigolyn, ac achosion eraill yn cyfeirio at gwpl neu deulu.

Mae Tabl 1 yn dangos mai cyfanswm y llwyth achosion yn 2019-20 oedd 275,042. Mae hyn yn cymharu â 277,989 yn 2018-19. Felly, mae'r llwyth achosion wedi gostwng 2,947 o achosion (1.1%). Gwelodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn ostyngiad yn y llwyth achosion. Yng Ngheredigion y cafwyd y gostyngiad canrannol mwyaf (-5.9%). Gwelodd pum awdurdod lleol gynydd mewn llwythi achosion, a Phowys oedd â'r cynnydd canrannol mwyaf (171 o achosion ychwanegol).

Tabl 1: Y Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru: llwyth achosion a gwerth gostyngiadau 2019-20 (a)

	(Llwyth achosion)			(Gwerth y gostyniad(b))		
	Nifer 2018-19	Nifer 2019-20	Newid o 2018-19 (%)	Cyfanswm 2018-19 (£ thousand)	Cyfanswm 2019-20 (£ thousand)	Newid o 2018-19 (%)
Ynys Môn	5,848	5,739	-1.9	5,381	5,778	6.9
Gwynedd	9,367	8,978	-4.2	9,325	9,517	2.0
Conwy	10,252	10,103	-1.5	9,576	10,181	5.9
Sir Ddinbych	9,559	9,378	-1.9	9,545	9,939	4.0
Sir y Fflint	10,752	10,476	-2.6	10,306	10,707	3.7
Wrecsam	11,445	11,104	-3.0	9,933	10,097	1.6
Powys	9,233	9,404	1.9	8,919	9,777	8.8
Ceredigion	5,716	5,376	-5.9	5,406	5,707	5.3
Sir Benfro	10,487	10,297	-1.8	8,529	9,122	6.5
Sir Gaerfyrddin	16,007	15,787	-1.4	15,100	15,593	3.2
Abertawe	22,438	22,416	-0.1	20,311	21,463	5.4
Castell-nedd Port Talbot	17,067	17,011	-0.3	17,308	17,802	2.8
Pen-y-bont ar Ogwr	13,336	13,155	-1.4	14,084	14,582	3.4
Bro Morgannwg	9,558	9,549	-0.1	9,671	10,097	4.2
Rhondda Cynon Taf	24,866	24,747	-0.5	23,037	24,441	5.7
Merthyr Tudful	6,399	6,297	-1.6	5,994	6,234	3.9
Caerffili	17,320	16,720	-3.5	13,799	13,785	-0.1
Blaenau Gwent	8,753	8,892	1.6	8,631	8,988	4.0
Torfaen	9,985	10,074	0.9	8,797	9,282	5.2
Sir Fynwy	5,690	5,780	1.6	6,160	6,410	3.9
Casnewydd	13,506	13,260	-1.8	10,910	11,234	2.9
Caerdydd	30,405	30,499	0.3	30,142	31,124	3.2
Cymru	277,989	275,042	-1.1	260,864	271,862	4.0

(a) Ffynhonnell: Ffigurau llwyth achosion yr awdurdodau lleol 2019-20 (heb eu dilysu) a 2018-19 (wedi'u dilysu).

(b) Mae'r ffigurau wedi'u talgrynu i'r mil agosaf ac felly gall fod rhai anghysondebau bach rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfansymiau fel y'u dangosir.

2.2 Gwerth diwedd blwyddyn y gostyngiadau ar gyfer 2019-20

Mae 'gwerth y gostyngiad' yn cyfeirio at swm lleihau'r atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor ar gyfer yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad. Mae awdurdodau lleol yn cael arian i wneud iawn am yr incwm treth gyngor y byddent yn ei gael fel arall gan aelwydydd sy'n gymwys i gael cymorth ac sy'n gwneud cais amdano. Mae hynny'n golygu bod yr aelwydydd cymwys yn cael bil treth gyngor llai neu nad oes ganddyn nhw unrhyw fil i'w dalu.

O'r data llwyth achosion, cyfanswm gwerth y gostyngiadau ar gyfer holl aelwydydd Cymru yn 2019-20 oedd £271.9m, o'i gymharu â £260.9m yn 2018-19. Mae hyn yn gynnydd o tua £11.0m (4.0%).

Trwy ragfynegi hyd at ddiwedd y flwyddyn ar sail llwyth achosion, mae'r ffigurau hyn yn gorddatgan gwir werth y gostyngiadau a roddwyd. Yr alldro archwiliedig ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau yn 2018-19 oedd £252.1m (Nid yw'r ffigur ar gyfer 2019-20 ar gael eto).

Gwelodd pob awdurdod lleol ar wahân i Gaerffili gynnydd yng ngwerth eu gostyngiadau, gyda gostyngiad o 0.1% yng Nghaerffili. Ym Mhowys y gwelwyd y cynnydd mwyaf (8.8%), ac yn Wrecsam y cynnydd lleiaf (1.6%). Mae Tabl 1 yn dangos ffigurau ar gyfer cyfanswm gwerth y gostyngiadau fesul awdurdod lleol.

Mae'r ffigurau'n dangos nad yw llwythi achosion sy'n gostwng yn cael eu hadlewyrchu mewn lleihad cyfatebol yng nghyfanswm gwerth y gostyngiadau. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i godiadau yn y dreth gyngor leol, sydd wedi rhoi pwysau tuag i fyny ar y gostyngiad cyfartalog i bob aelwyd. .

Mae Tabl A1 yn Atodiad A yn rhoi gwybodaeth am godiadau yn y dreth gyngor fesul awdurdod lleol ar gyfer 2019-20.

2.3 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau fel canran o'r aelwydydd atebol

Mae Tabl 2 yn dangos, ym mis Mawrth 2020, fod llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau, o'i gymharu â'r holl eiddo a oedd yn agored i dreth gyngor yng Nghymru, yn 19.9%. Mae'r ffigur hwn yn amrywio'n sylweddol o un awdurdod lleol i'r llall. Gan Sir Fynwy y mae'r nifer lleiaf o achosion o'i gymharu â'r holl aelwydydd atebol (14.1%), a Blaenau Gwent sydd â'r llwyth achosion mwyaf o'i gymharu â'r holl aelwydydd atebol (28.0%).

Tabl 2: Achosion y Cynllun Gostyngiadau o'u cymharu â'r holl aelwydydd atebol, 2019-20

	Nifer yr aelwydydd 2019-20 (a)	Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau 2019-20 (b)	Achosion mewn cymhariaeth â phob aelwyd atebol (%)
Ynys Môn	33,954	5,739	16.9
Gwynedd	57,096	8,978	15.7
Conwy	55,030	10,103	18.4
Sir Ddinbych	43,854	9,378	21.4
Sir y Fflint	67,194	10,476	15.6
Wrecsam	58,527	11,104	19.0
Powys	62,517	9,404	15.0
Ceredigion	32,787	5,376	16.4
Sir Benfro	59,534	10,297	17.3
Sir Gaerfyrddin	85,097	15,787	18.6
Abertawe	106,047	22,416	21.1
Castell-nedd Port Talbot	63,963	17,011	26.6
Pen-y-bont ar Ogwr	63,294	13,155	20.8
Bro Morgannwg	57,508	9,549	16.6
Rhondda Cynon Taf	104,766	24,747	23.6
Merthyr Tudful	26,594	6,297	23.7
Caerffili	77,125	16,720	21.7
Blaenau Gwent	31,795	8,892	28.0
Torfaen	41,045	10,074	24.5
Sir Fynwy	41,047	5,780	14.1
Casnewydd	66,634	13,260	19.9
Caerdydd	145,163	30,499	21.0
Cymru	1,380,571	275,042	19.9

(a) Ffynhonnell: StatsCymru

(b) Ffynhonnell: Ffigurau Llwyth Achosion Awdurdodau Lleol 2019-20 (heb eu dilysu)

3. Tueddiadau a Phatrymau

3.1 Gair am y fethodoleg

Mae'r ffigurau yn y bennod hon wedi'u cyrchu o offeryn modelu a darogan, Datatank Connect. Mae hwn yn tynnu manylion llwythi achosion agored a gwerth gostyngiadau y Cynllun Gostyngiadau o systemau refeniw a budd-daliadau awdurdodau lleol Cymru ar sail ciplun misol, ac yn rhagamcanu'r data hyd at ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn darparu data ar lwyth achosion cyffredinol a chyfanswm gwerth y gostyngiadau yn ogystal â gwybodaeth fanwl am y mathau o aelwydydd sy'n cael gotyngiad treth gyngor a'r gostyngiadau cyfartalog a ddyfernir i'r aelwydydd hyn.


Mae dau bwynt pwysig i'w nodi. Yn gyntaf, mae'r set ddata yn darparu gwybodaeth fanwl ar **achosion byw yn unig**. Yn wahanol i'r data ar ddiwedd y flwyddyn, nid yw'r set ddata hon yn rhoi gwybodaeth am achosion sydd wedi'u cau o fewn y flwyddyn. Mae'r gwahaniaeth yn dibynnu ar lif achosion i mewn ac allan ac mae'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2019-20, y gwahaniaeth rhwng y ffigur ar ddiwedd y flwyddyn (276,422) a'r llwyth achosion agored ar gyfer mis Mawrth 2019 (279,202) oedd 2,780 o achosion.

Yn ail, mae'r set ddata yn cymharu gwahanol elfennau o'r data diwedd blwyddyn a nodwyd yn y bennod flaenorol. Yn hytrach na dadansoddi'r newidiadau i'r llwyth achosion a'r gostyngiadau rhwng 2018-19 a 2019-20, mae'r bennod hon yn cymharu llwyth achosion byw rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2020.

3.2 Y llwyth achosion cyffredinol

Ers cyflwyno Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ym mis Ebrill 2013, mae cyfanswm y llwyth achosion wedi parhau i ostwng.

Ffig 1: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru, mis Mai 2013 i fis Mawrth 2020



Ffynhonnell: Datatank

Ym mis Mawrth 2020, cyfanswm y llwyth achosion oedd 276,422. Mae cyfanswm y llwyth achosion wedi gostwng 2,780 (1%) ers mis Mawrth 2019, a thua 47,000 ers cyflwyno'r Cynllun Gostyngiadau.


Mae Tabl A2 yn Atodiad A yn darparu'r ffigurau ar gyfer y llwyth achosion byw misol yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020.

3.3 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl oedran ac awdurdod lleol

Mae Ffigur 2 yn nodi canran yr aelwydydd sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth yngor yn ôl grŵp oedran ac awdurdod lleol. O blith awdurdodau lleol Cymru, llwyth achosion Caerdydd sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd oedran gweithio (68.2%) ac felly y gyfran isaf o aelwydydd pensiynwyr (31.7%).

Llwyth achosion Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd pensiynwyr (47.9%) a'r gyfran isaf o aelwydydd oedran gweithio (52.1%).

Ffig 2: Cyfran yr aelwydydd sy'n derbyn gostyngiad yn ôl oedran, mis Mawrth 2020



Ffynhonnell: Datatank

Mae Tabl A3 yn Atodiad A yn rhoi'r ffigurau ar gyfer y llwyth achosion gwirioneddol fesul grŵp oedran ar gyfer mis Mawrth 2020.

Roedd 165,643 o achosion ar gyfer aelwydydd oedran gweithio (60% o'r holl achosion) ym mis Mawrth 2020. Mae hyn yn gynydd o 455 o achosion o'i gymharu â Mawrth 2019 (0.3%). Gwelodd 14 o awdurdodau lleol gynydd yn eu llwyth achosion o aelwydydd oedran gweithio. Yng Nghasnewydd y gwelwyd y gostyngiad mwyaf (3.9%), tra gwelwyd y cynnydd mwyaf ym Mhowys (13.3%).

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r llwyth achosion oedran gweithio wedi aros yn sefydlog. Fodd bynnag, ers 2013, mae'r llwyth gwaith cyffredinol o ran aelwydydd oedran gweithio wedi gostwng. Mae amryw o resymau posibl am hyn, gan gynnwys nifer y bobl sy'n gadael y system fudd-daliadau'n gyfan gwbl oherwydd gwelliannau yn y sefyllfa economaidd gyffredinol a/neu effeithiau

cronnol diwygiadau i'r system les. Mae'n bosibl hefyd fod newididau mewn llwythi achosion oedran gweithio wedi digwydd yn rhannol oherwydd effaith y Credyd Cynhwysol (gweler adran 3.4).

Yn gyffredinol, roedd 110,744 o aelwydydd pensiynwyr (40% o'r holl achosion) yn cael gostyngiad yn y dreth gyngor ym mis Mawrth 2020. Mae hyn yn ostyngiad o 2.8% ers mis Mawrth 2019. Wrecsam a welodd y gostyngiad mwyaf (4.7%) a gwelodd pob awdurdod lleol fod ei lwyth achosion pensiynwyr yn gostwng.

Mae'n bosibl fod y gostyngiad cyffredinol yn llwyth achosion aelwydydd pensiynwyr ledled Cymru wedi digwydd yn rhannol oherwydd newidiadau yn oedran pensiwn y wladwriaeth i fenywod. Oedran pensiwn y wladwriaeth yw 65 ar gyfer dynion ac mae wedi'i godi o 60 i 65 i fenywod ers mis Ebrill 2010, i'w wneud yn gyfartal ag oedran pensiwn dynion erbyn mis Tachwedd 2018. Bydd oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer y ddau ryw yn codi i 66 erbyn Hydref 2020.

Mae'n bosibl hefyd y bu gostyngiad yng nghyfran y pensiynwyr sy'n cael gostyngiad yn y dreth gyngor. Y rheswm am hyn yw bod carfannau newydd o bensiynwyr wedi tueddu i fod ar incwm uwch ac yn fwy tebygol o fod yn berchen-feddianwyr ac felly'n llai tebygol o wneud cais am ostyngiad yn eu treth gyngor.


3.4 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl gwerth y dyfarniad

Yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, gall aelwydydd sy'n cael gostyngiad yn y dreth gyngor yng Nghymru fod â hawl i gael naill ai ddyfarniad llawn os yw eu rhwymedigaeth treth gyngor yn gostwng i sero, neu ddyfarniad rhannol lle maent yn dal i fod yn atebol i dalu rhan o'u bil treth gyngor.

Mae Ffigur 3 yn dangos cyfran yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad yn y dreth gyngor sy'n gymwys ar gyfer y dyfarniad llawn. Ym mis Mawrth 2020, derbyniodd 78.4% (216,803) o aelwydydd a oedd yn cael gostyngiad yn y dreth gyngor ddyfarnia llawn ac nid oeddent yn atebol i dalu unrhyw dreth gyngor.

Ffig 3: Canran yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad yn y dreth gyngor, yn ôl dyfarniad llawn neu rannol, mis Mawrth 2020

Cyfanswm = 276,422




Ffynhonnell: Datatank

3.5 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl statws pasbortio

Os yw'r aelwyd yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm (JSA), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm (ESA) neu Gredyd Pensiwn (Credyd Gwarant), cyfeirir atynt fel 'achos wedi'i basbortio'. Mae hyn oherwydd eu bod yn cael eu hasesu'n awtomatig ar gyfer gostyngiad treth gyngor.

Os nad yw aelwyd yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau hyn, neu os yw'n cael Credyd Cynhwysol, cyfeirir ati fel 'achos heb ei basbortio'. Mae hyn oherwydd y bydd angen i'r aelwyd wneud cais ar wahân am ostyngiad treth gyngor.

Ffig 4: Cyfran yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad treth gyngor, yn ôl statws pasbortio



Ffynhonnell: Datatank

Dengys Ffigur 4 ym mis Mawrth 2020, mai achosion wedi'u pasbortio oedd 54.7% o'r llwyth achosion cyffredinol ar gyfer gostyngiadau'r dreth gyngor. Mae hyn yn cymharu â 61% ym mis Mawrth 2019.


Achosion safonol heb eu pasbortio oedd 23.7% o achosion gostyngiadau'r dreth gyngor yn 2020, sef gostyngiad o 3.5 pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol.

Aelwydydd a oedd yn cael Credyd Cynhwysol oedd 21.6% o'r llwyth achosion gostyngiadau treth gyngor ym mis Mawrth 2020 o'i gymharu â 11.7% yn 2019.

Wrth i'r broses o gyflwyno'r Credydd Cynhwysol barhau, bydd cyfran yr achosion wedi'u pasbortio a heb eu pasbortio yn parhau i ostwng, tra bydd cyfran yr achosion Credyd Cynhwysol yn parhau i gynyddu.

Ffig 5: Newidiadau i'r llwyth achosion yn ôl statws incwm, mis Mawrth 2020

Mae Ffigur 5 yn trefnu'r llwyth achosion cyffredinol mewn chwe chategori yn seiliedig ar 'statws incwm'.



Ffynhonnell: Datatank

Mae Ffigur 5 yn dangos newid mewn llwyth achosion yn ôl statws incwm rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2020. Mae'n dangos bod achosion wedi'u pasbortio (JSA, ESA, Cymhorthdal Incwm a Chredyd Pensiwn) wedi gostwng 19,090 ers 2019 (11.2%). Bu gostyngiad o 10,568 (13.9%) hefyd yn nifer yr achosion safonol heb eu pasbortio. Ar y llaw arall, roedd nifer yr achosion Credyd Cynhwysol ym mis Mawrth 2020 yn 59,651, o'i gymharu â 32,773 ym mis Mawrth 2019, cynnydd o 82.0%.

Y buddion pasbortio mwyaf cyffredin oedd ESA a Chredyd Pensiwn a oedd i'w gyfrif am ychydig o dan hanner yr holl achosion o ostyngiadau'r dreth gyngor ledled Cymru.

Mae Tabl A4 yn Atodiad A yn rhoi'r union ffigurau am y llwyth achosion yn ôl statws incwm ac awdurdod lleol ar gyfer Mawrth 2020.

3.6 Effaith y Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Mae'r Credyd Cynhwysol yn disodli chwech o'r prif fudd-daliadau oedran gweithio sy'n seiliedig ar brawf modd: Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Tai, Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith.

Erbyn hyn, mae'n rhaid i aelwydydd sy'n cael Credyd Cynhwysol wneud cais ar wahân am ostyngiad i'r dreth gyngor. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa flaenorol lle byddent efallai wedi cael eu hasesu ar gyfer gostyngiad treth gyngor febl rhan o'r broses o dderbyn eu budd-daliadau pasbortio. Yn yr achosion hyn, doedd dim angen i aelwydydd cymwys fod yn rhagweithiol o ran gwneud cais am ostyngiad i'r dreth gyngor.

Er bod y llwyth achosion ar gyfer aelwydydd oedran gweithio wedi aros yn sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y newid hwn yn effeithio ar y llwyth achosion cyffredinol ar gyfer gostyngiadau'r dreth gyngor yng Nghymru, wrth i aelwydydd a aeth drosodd i'r system Credyd Cynhwysol adael system ostyngiadau'r dreth gyngor oherwydd diffyg ymwybyddiaeth am y dull newydd. Mae'r Credyd Cynhwysol hefyd yn effeithio ar gymhwysedd aelwydydd i gael gostyngiad i'r dreth gyngor, er enghraifft, os oes gan aelwyd incwm uwch o dan y Credyd Cynhwysol o'i gymharu â'i hincwm o'r blaen, efallai y bydd yn cael llai o ostyngiad i'r dreth gyngor neu efallai na fydd yn bodloni'r meini prawf o gwbl ar gyfer cael gostyngiad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu asesiad manwl o effaith y Credyd Cynhwysol ar y Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru. Cyhoeddwyd adroddiad interim gan Policy in Practice, *Deall Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru*, ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020:

<https://llyw.cymru/credyd-cynhwysol-cynllun-gostyngiadau-dreth-gyngor-ac-ol-ddyledion-rhent-yng-nghymru-adroddiad>

Mae'r ymchwil hon yn astudiaeth blwyddyn o hyd sy'n defnyddio llawer iawn o waith dadansoddi manwl i olrhain amgylchiadau aelwydydd yng Nghymru. Ategir y gwaith empirig gan ymchwil ansoddol newydd i brofiadau hawlwyr Credyd Cynhwysol, tenantiaid, gwasanaethau cynghori, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a landlordiaid preifat.

Mae'r adroddiad interim yn canolbwyntio ar gam cyntaf yr ymchwil bwysig hon - effaith y Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'n trafod syniadau ar gyfer lleihau rhai o effeithiau'r Credyd Cynhwysol ar ddyfarniadau gostyngiadau i'r dreth gyngor yn y dyfodol. Bydd yr adroddiad terfynol, sydd i'w gyhoeddi yn ddiweddarach eleni, yn cynnwys ymchwil ansoddol a bydd yn ymchwilio ymhellach i effaith y Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a hefyd ar ôl-ddyledion rhent.

Mae'r adroddiad interim yn dangos, yn achos llawer o aelwydydd, y gall symud i'r Credyd Cynhwysol gael effaith sylweddol ar ddyfarniadau gostyngiadau'r

dreth gyngor. Bydd aelwydydd sy'n derbyn gostyngiad o 100% yn y dreth gyngor ar hyn o bryd am nad oes ganddynt incwm yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, i eraill, dangosir bod symud at y Credyd Cynhwysol wedi cael effaith andwyol, yn enwedig i aelwydydd cyflogedig, aelwydydd hunangyflogedig, ac aelwydydd sy'n gweithio sy'n cael Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Bersonol. Pe bai'r Cynllun Gostyngiadau presennol yn cael ei gadw ar ei ffurf bresennol yn 2021-22, mae'r canfyddiadau cynnar yn awgrymu y gallai cymorth i aelwydydd cyflogedig sy'n cael credyd cynhwysol ostwng 12% ar gyfartaledd, tra bod aelwydydd hunangyflogedig yn gweld gostyngiad o tua 80% ar gyfartaledd yn y cymorth treth gyngor. Gwelir sylw tebyg ar gyfer aelwydydd sy'n gweithio, sy'n cael Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Bersonol, ac sy'n symud at y Credyd Cynhwysol. Ar gyfer y grŵp hwn, amcangyfrifir y bydd y cymorth cyfartalog yn gostwng 22%.

Mae'r adroddiad yn ein hatgoffa na fydd rhai o'r aelwydydd hyn yn waeth eu byd yn ariannol, gan y gallant dderbyn mwy o gymorth o dan y Credyd Cynhwysol ac felly gael eu hasesu fel rhai sydd angen llai o gefnogaeth gyda'u treth gyngor. Serch hynny, mae hon yn wybodaeth hanfodol i Lywodraeth Cymru gan y gallai fod yn bosibl diwygio ein Cynllun Gostyngiadau yn y dyfodol i liniaru'r effeithiau negyddol ar rai grwpiau.

Mae'r adroddiad interim yn cyflwyno dadansoddiad cynnar o addasiadau posibl i'r cynllun presennol a allai adfer cydraddoldeb rhwng aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a'r Credyd Cynhwysol.


3.7 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl math o deulu

Fel yr amlinellwyd uchod, gostyngodd cyfanswm y llwyth achosion 1% i 276,422 ym mis Mawrth 2020.

Dengys Ffigur 6 newidiadau llwyth achosion gostyngiadau'r dreth gyngor yn ôl y math o deulu. Mae'n dangos mai'r categori mwyaf yw aelwydydd un oedolyn heb unrhyw ddibynyddion. Roedd yr aelwydydd hyn yn cyfrif am 162,375 (59%) o'r achosion ym mis Mawrth 2020, sef cynnydd o 0.7% ers mis Mawrth 2019.

Bu lleihad yn y llwyth achosion ar gyfer mathau eraill o deuluoedd. Roedd 51,477 (19%) o'r derbynwyr yn aelwydydd rhiant sengl ym Mawrth 2020, gostyngiad o 2.2% o'i gymharu â Mawrth 2019. Roedd 40,955 (15%) o o aelwydydd yn cynnwys cwpl heb unrhyw ddibynyddion, gostyngiad o 3.4% o'i gymharu â Mawrth 2019. Roedd 21,615 (8%) o aelwydydd sy'n cynnwys cwpl a phlant dibynnol, cwmp o 5.6% o'i gymharu â Mawrth 2019.

Ffig 6: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl math o deulu, mis Mawrth 2019 i fis Mawrth 2020



Ffynhonnell: Datatank


Mae Tabl A5 yn Atodiad A yn rhoi'r ffigurau llwyth achosion gwirioneddol yn ôl y math o deulu a'r awdurdod lleol ar gyfer Mawrth 2020.

3.8 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl band treth gyngor

Mae Ffigur 7 yn dangos cyfran aelwydydd y Cynllun Gostyngiadau yn ôl band y dreth gyngor ym mis Mawrth 2020. Rhoddir pob annedd drethadwy mewn band treth gyngor yn dibynnu ar werth yr eiddo ar y farchnad ar 1 Ebrill 2003. Eiddo band A sy'n gyfrifol am y cyfraddau isaf o'r dreth gyngor ac mae eiddo band I yn denu'r cyfraddau uchaf (Mae Band A- yn adlewyrchu cyfradd ostyngol ar gyfer eiddo a addaswyd ar gyfer pobl anabl).


Yng Nghymru, roedd 85% o'r aelwydydd a oedd yn cael gostyngiad treth gyngor yn byw mewn eiddo ym mandiau A -i C ym mis Mawrth 2020. Gellir priodoli hyn yn rhannol i ddsbarthiad anheddau ar draws bandiau'r dreth gyngor, gyda bron i dri chwarter yr anheddau trethadwy ym mandiau A i D.

Ffig 7: Canran y llwyth achosion cyffredinol yn ôl band treth gyngor, mis Mawrth 2020



Ffynhonnell: Datatank

Ffig 8: Cyfran aelwydydd y Cynllun Gostyngiadau yn ôl band treth gyngor, Mawrth 2020 (a)



Ffynhonnell: Datatank

- (a) Daw'r ffigurau ar gyfer cyfanswm yr anheddau trethadwy o StatsCymru
Daw'r ffigurau ar gyfer cyfanswm hawlwr gostyngiadau'r dreth gyngor o Datatank

Mae Ffigur 8 yn dangos cyfran yr anheddau trethadwy sy'n cael gostyngiad treth gyngor fesul band. Band A sydd â'r gyfran uchaf o anheddau sy'n derbyn gostyngiad ar 43.2%. Bandiau E i I sydd â'r gyfran isaf o anheddau sy'n derbyn gostyngiad ar 4.6%.

Mae Tabl A6 yn Atodiad A yn rhoi'r ffigurau ar gyfer llwythi achosion gwirioneddol y Cynllun Gostyngiadau yn ôl awdurdod lleol a band y dreth gyngor ym mis Mawrth 2020.

4. Meysydd Disgresiwn Lleol

O dan Reoliadau'r Cynllun Gostyngiadau, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru fabwysiadu ei gynllun ei hun ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol erbyn 31 Ionawr. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys meysydd disgresiwn lleol, er mwyn i awdurdodau allu ystyried anghenion a blaenoriaethau eu hardal leol. Fe aeth pob awdurdod ati i fabwysiadu cynllun, ond petai un ohonyn nhw heb wneud hynny, byddai'r cynllun diofyn wedi cael ei gyflwyno er mwyn sicrhau bod aelwydydd cymwys yn dal i gael cymorth ariannol i fodloni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor.

Dyma'r meysydd disgresiwn lleol lle gall awdurdod lleol ddewis cyflwyno darpariaethau mwy hael na'r gofynion sylfaenol yn y rheoliadau:

- *Cyfnod gostyngiad estynedig* – gall awdurdodau lleol gynyddu'r cyfnod lle bydd gan ymgeiswyr hawl i barhau i gael gostyngiad mewn rhai amgylchiadau, y tu hwnt i'r cyfnod safonol o bedair wythnos.
- *Ôl-ddyddio ceisiadau* – gall awdurdodau lleol ôl-ddyddio ceisiadau am ostyngiadau y tu hwnt i'r cyfnod safonol o dri mis.
- *Pensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiwn Rhyfel Gwedd* – gall awdurdodau lleol ddiystyru mwy na'r swm statudol o £10 a gafwyd mewn perthynas â'r pensiynau hyn wrth gyfrifo incwm.

Gwnaeth awdurdodau lleol yng Nghymru y penderfyniadau canlynol ynghylch eu Cynllun Gostyngiadau ar gyfer 2018-19:

- Ni wnaeth unrhyw awdurdod lleol estyn y cyfnod safonol o bedair wythnos lle bydd gan ymgeiswyr hawl i barhau i gael gostyngiad mewn rhai amgylchiadau.
- Dewisodd un awdurdod ôl-ddyddio hawliadau am hyd at 26 wythnos yn hytrach na thri mis.
- Penderfynodd pob awdurdod ddiystyru Pensiynau Rhyfel yn llwyr wrth gyfrifo incwm, uwchlaw'r swm statudol o £10 a gafwyd mewn perthynas â phensiynau rhyfel.

Ceir manylion am gynllun pob awdurdod lleol ar eu gwefannau unigol.

5. Apeliadau

5.1 Tribiwnlys Prasio Cymru

Ers cyflwyno'r Cynllun Gostyngiadau ar 1 Ebrill 2013, Tribiwnlys Prasio Cymru sydd wedi bod yn gyfrifol am wrando ar apeliadau sy'n deillio o'r penderfyniadau ynghylch y Cynllun Gostyngiadau. Mae'n rhaid i unigolion sy'n talu'r dreth gyngor gyflwyno cwyn yn uniongyrchol i'w hawdurdod lleol cyn gallu cofrestru apêl.

Mae Tabl 3 yn dangos canlyniad yr apeliadau ynglŷn â'r Cynllun Gostyngiadau a gyflwynwyd i Dribiwnlys Prasio Cymru yn ystod 2018-19. Cafwyd 17 apêl yn ystod 2018-19 (wedi lleihau o 57 yn 2017-18), a chafodd 35 eu dwyn ymlaen o 2017-18.

O blith y rheini, cafwyd penderfyniadau ar gyfer 40 o achosion, a dygwyd 27 o achosion heb eu cwblhau ymlaen i 2020-21.

O ran y rheini y cafwyd penderfyniad yn eu cylch, cafodd 21 o achosion eu setlo setlo cyn gwrandawriad panel y tribiwnlys. Fel arfer, mae canlyniadau'r achosion hyn yn mynd o blaid y sawl sy'n apelio, gan fod awdurdod wedi ailystyried ei benderfyniad cychwynnol ar ôl cael tystiolaeth ychwanegol ynghylch hawliad y sawl sy'n apelio.

Tabl 3: Apeliadau i Dribiwnlys Prasio Cymru ar gyfer 2019-20

	Derbyniadau		Penderfyniadau			Yn weddill
	Wedi'u derbyn yn 2018-19	Wedi'u dwyn ymlaen o 2017-18	Wedi'u setlo cyn y gwrandawriad	Wedi'u penderfynu gan dribiwnlys	Dileu	Wedi'u dwyn ymlaen i'r cyfnod neaf
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	29	38	21	19	0	27

Ffynhonnell: data gweinyddol Tribiwnlys Prasio Cymru

Atodiad A: Ystadegau ychwanegol y Cynllun Gostyngiadau ar gyfer 2019-20

Tabl A1: Lefelau'r dreth gyngor 2019-20

	Y Dreth Cyngor Eiddo Band D ar Gyfartaledd (£) 2019-20	Cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfartaledd am eiddo Band D (%) ers 2018-19
Ynys Môn	1,572.32	9.13
Gwynedd	1,699.46	6.15
Conwy	1,603.13	9.12
Sir Ddinbych	1,656.96	6.53
Sir Flint	1,604.33	8.38
Wrecsam	1,480.63	5.88
Powys	1,613.44	9.72
Ceredigion	1,595.82	7.56
Sir Benfro	1,377.25	9.97
Sir Gaerfyrddin	1,587.69	5.82
Abertawe	1,618.47	6.64
Castell-nedd Port Talbot	1,857.29	4.78
Pen-y-bont ar Ogwr	1,777.19	6.05
Bro Morgannwg	1,551.69	5.85
Rhondda Cynon Taf	1,741.11	4.54
Merthyr Tudful	1,849.12	6.56
Caerffili	1,399.67	6.95
Blaenau Gwent	1,927.73	5.46
Torfaen	1,620.05	6.15
Sir Fynwy	1,629.72	5.90
Casnewydd	1,381.80	6.23
Caerdydd	1,471.32	5.81
Wales	1,590.85	6.62

Ffynhonnell: Datganiadau Gofynion Cyllidebol, StatsCymru

Tabl A2: Llwyth achosion byw y Cynllun Gostyngiadau, mis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020

	Ebr 2019	Mai 2019	Meh 2019	Gorff 2019	Awst 2019	Medi 2019	Hyd 2019	Tach 2019	Rhag 2019	Ion 2020	Chwe 2020	Maw 2020
Ynys Môn	5,739	5,778	5,734	5,730	5,713	5,711	5,689	5,718	5,701	5,697	5,757	5,802
Gwynedd	9,367	9,265	9,271	9,249	9,247	9,183	9,171	9,121	9,119	9,087	9,072	9,099
Conwy	10,230	10,173	10,184	10,162	10,090	10,086	10,081	10,081	10,065	10,064	10,056	10,084
Sir Ddinbych	9,555	9,554	9,521	9,492	9,450	9,466	9,421	9,399	9,392	9,358	9,346	9,375
Sir Fflint	10,795	10,787	10,793	10,778	10,775	10,734	10,684	10,657	10,683	10,661	10,661	10,561
Wrecsam	11,544	11,535	11,454	11,424	11,424	11,376	11,383	11,296	11,283	11,289	11,581	11,868
Powys	9,206	9,206	9,263	9,244	9,243	9,243	9,280	9,235	9,241	9,264	9,317	9,690
Ceredigion	5,372	5,329	5,292	5,293	5,268	5,258	5,221	5,261	5,264	5,303	5,329	5,340
Sir Benfro	10,220	10,581	10,525	10,438	10,476	10,408	10,370	10,418	10,413	10,336	10,387	10,445
Sir Gaerfyrddin	15,453	15,453	16,000	16,000	16,000	15,899	15,911	15,836	15,829	15,822	15,849	16,017
Abertawe	22,123	22,410	22,561	22,502	22,468	22,497	22,448	22,473	22,420	22,379	22,410	22,389
Castell-nedd Port Talbot	17,018	17,000	16,965	16,932	16,923	16,923	16,885	16,915	16,895	16,889	16,855	16,860
Pen-y-bont ar Ogwr	12,865	13,326	13,343	13,327	13,292	13,380	13,396	13,459	13,431	13,410	13,326	13,302
Bro Morgannwg	9,560	9,523	9,492	9,485	9,521	9,519	9,508	9,507	9,533	9,547	9,506	9,566
Rhondda Cynon Taf	24,834	24,717	24,717	24,717	24,717	24,755	24,729	24,710	24,705	24,701	24,689	24,655
Merthyr Tudful	6,076	6,586	6,334	6,327	6,351	6,348	6,342	6,338	6,323	6,309	6,309	6,305
Caerffili	17,314	17,215	17,175	17,151	17,077	17,120	17,004	16,932	16,872	16,807	16,697	16,732
Blaenau Gwent	8,761	8,754	8,712	8,735	8,761	8,836	8,839	8,942	8,941	8,940	8,939	8,929
Torfaen	9,720	9,967	9,993	10,041	9,991	10,004	9,989	9,993	10,030	10,038	10,041	10,047
Sir Fynwy	5,515	5,680	5,706	5,716	5,707	5,462	5,700	5,708	5,689	5,682	5,715	5,714
Casnewydd	13,494	13,417	13,440	13,452	13,415	13,378	13,409	13,369	13,279	13,293	13,153	13,075
Caerdydd	29,063	30,222	30,467	30,551	30,662	30,767	30,726	30,721	30,795	30,747	30,552	30,567
Cymru	273,824	276,478	276,942	276,746	276,571	276,353	276,186	276,089	275,903	275,623	275,547	276,422

Ffynhonnell: Datatank

Tabl A3: Ffigurau llwyth achosion byw y Cynllun Gostyngiadau yn ôl grŵp oedran, mis Mawrth 2020 (a)

	Nifer achosion byw Mawrth 2020	Nifer achosion byw Mawrth 2019	Newid ers Mawrth 2019 (%)	Nifer achosion byw Mawrth 2020	Nifer achosion byw Mawrth 2019	Newid ers Mawrth 2019 (%)	Nifer achosion byw Mawrth 2020	Nifer achosion byw Mawrth 2019	Newid ers Mawrth 2019 (%)
Ynys Môn	5,802	6,004	-3.4	2,724	2,843	-4.2	3,077	3,160	-2.6
Gwynedd	9,099	9,336	-2.5	4,355	4,562	-4.5	4,744	4,774	-0.6
Conwy	10,084	10,215	-1.3	4,629	4,768	-2.9	5,455	5,447	0.1
Sir Ddinbych	9,375	9,604	-2.4	4,099	4,206	-2.5	5,276	5,398	-2.3
Sir Fflint	10,561	10,741	-1.7	5,037	5,159	-2.4	5,524	5,582	-1.0
Wrecsam	11,868	12,081	-1.8	4,721	4,955	-4.7	7,143	7,121	0.3
Powys	9,690	9,159	5.8	4,459	4,544	-1.9	5,230	4,615	13.3
Ceredigion	5,340	5,357	-0.3	2,307	2,349	-1.8	3,033	3,008	0.8
Sir Benfro	10,445	10,628	-1.7	4,442	4,552	-2.4	6,000	6,076	-1.3
Sir Gaerfyrddin	16,017	16,214	-1.2	6,900	7,114	-3.0	9,109	9,084	0.3
Abertawe	22,389	22,398	0.0	8,515	8,676	-1.9	13,874	13,722	1.1
Castell-nedd Port Talbot	16,860	16,939	-0.5	6,367	6,562	-3.0	10,493	10,377	1.1
Pen-y-bont ar Ogwr	13,302	13,445	-1.1	5,122	5,279	-3.0	8,180	8,166	0.2
Bro Morgannwg	9,566	9,574	-0.1	3,805	3,859	-1.4	5,761	5,715	0.8
Rhondda Cynon Taf	24,655	24,871	-0.9	9,508	9,728	-2.3	15,147	15,143	0.0
Merthyr Tudful	6,305	6,420	-1.8	2,425	2,479	-2.2	3,879	3,941	-1.6
Caerffili	16,732	17,288	-3.2	7,071	7,322	-3.4	9,661	9,966	-3.1
Blaenau Gwent	8,929	8,790	1.6	3,423	3,534	-3.1	5,506	5,256	4.8
Torfaen	10,047	10,012	0.3	3,735	3,849	-3.0	6,310	6,159	2.5
Sir Fynwy	5,714	5,719	-0.1	2,585	2,643	-2.2	3,129	3,075	1.8
Casnewydd	13,075	13,459	-2.9	4,820	4,873	-1.1	8,255	8,586	-3.9
Caerdydd	30,567	30,948	-1.2	9,695	10,110	-4.1	20,857	20,817	0.2
Cymru	276,422	279,202	-1.0	110,744	113,966	-2.8	165,643	165,188	0.3

Ffynhonnell: Datatank

(a) Mae ffigurau 2019 yn cynnwys 48 o ffigurau lle nad yw oedran yr ymgeisydd yn hysbys.

(b) Mae ffigurau 2020 yn cynnwys 35 o achosion lle nad yw oedran yr ymgeisydd yn hysbys.

Tabl A4: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl statws incwm, mis Mawrth 2020

	Cyfanswm	Heb ei basbortio	Cymhorthdal Incwm	Lwfans Ceisio Gwaith	Lwfans cyflogaeth a chymorth	Credyd Pensiwn (Credyd Gwarant)	Credyd Cynhwysol
Ynys Môn	5,802	1,569	326	168	1,193	1,692	854
Gwynedd	9,099	2,250	464	181	1,887	2,794	1,523
Conwy	10,084	2,467	521	194	2,024	2,912	1,966
Sir Ddinbych	9,375	2,273	548	115	1,981	2,519	1,939
Sir Fflint	10,561	3,033	489	89	1,745	2,789	2,416
Wrecsam	11,868	2,816	647	77	2,020	2,707	3,601
Powys	9,690	2,889	357	83	1,792	2,555	2,014
Ceredigion	5,340	1,377	208	64	1,398	1,465	828
Sir Benfro	10,445	2,406	639	225	2,258	2,796	2,121
Sir Gaerfyrddin	16,017	4,135	884	371	3,861	4,161	2,605
Abertawe	22,389	4,513	1202	326	5,684	5,417	5,247
Castell-nedd Port Talbot	16,860	3,887	986	136	4,129	3,595	4,127
Pen-y-bont ar Ogwr	13,302	3,404	898	89	3,202	2,820	2,889
Bro Morgannwg	9,566	2,538	617	112	2,306	2,228	1,765
Rhondda Cynon Taf	24,655	5,173	1848	471	7,103	5,635	4,425
Merthyr Tudful	6,305	1,301	441	84	1,602	1,418	1,459
Caerffili	16,732	3,522	1163	333	4,638	4,306	2,770
Blaenau Gwent	8,929	1,959	512	133	2,343	1,891	2,091
Torfaen	10,047	2,363	456	36	2,020	2,069	3,103
Sir Fynwy	5,714	1,670	214	55	1,162	1,429	1,184
Casnewydd	13,075	2,610	829	186	3,142	3,059	3,249
Caerdydd	30,567	7,295	1922	453	7,366	6,056	7,475
Cymru	276,422	65,450	16,171	3,981	64,856	66,313	59,651

Ffynhonnell: Datatank

Tabl A5: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl math o deulu, mis Mawrth 2020

	Cyfanswm	Sengl heb unrhyw ddibynyddion	Sengl gydag un neu fwy o ddibynyddion	Cwpl heb unrhyw ddibynyddion	Cwpl gydag un neu fwy o ddibynyddion
Ynys Môn	5,802	3,499	919	998	386
Gwynedd	9,099	5,776	1,432	1,323	568
Conwy	10,084	6,219	1,608	1,593	664
Sir Ddinbych	9,375	5,469	1,581	1,531	794
Sir Fflint	10,561	6,123	2,029	1,641	768
Wrecsam	11,868	6,495	2,582	1,730	1,061
Powys	9,690	5,857	1,551	1,524	758
Ceredigion	5,340	3,281	783	872	404
Sir Benfro	10,445	5,985	1,807	1,785	868
Sir Gaerfyrddin	16,017	9,394	2,632	2,673	1,318
Abertawe	22,389	14,096	3,913	2,900	1,480
Castell-nedd Port Talbot	16,860	10,037	3,066	2,603	1,154
Pen-y-bont ar Ogwr	13,302	7,488	2,692	2,087	1,035
Bro Morgannwg	9,566	5,652	2,063	1,201	650
Rhondda Cynon Taf	24,655	14,512	4,705	3,849	1,589
Merthyr Tudful	6,305	3,713	1,198	973	421
Caerffili	16,732	9,662	2,769	2,995	1,306
Blaenau Gwent	8,929	5,212	1,547	1,488	682
Torfaen	10,047	5,636	2,103	1,482	826
Sir Fynwy	5,714	3,461	996	843	414
Casnewydd	13,075	7,699	2,688	1,616	1,072
Caerdydd	30,567	17,109	6,813	3,248	3,397
Cymru	276,422	162,375	51,477	40,955	21,615

Ffynhonnell: Datatank

Tabl A6: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl band treth gyngor, mis Mawrth 2020 (a)

	A-	A	B	C	D	E	F	G	H	I	Cyfanswm
Ynys Môn	8	2,001	1,836	989	568	292	88	18	2	0	5,802
Gwynedd	1	2,561	3,657	1,704	670	384	104	17	1	0	9,099
Conwy	5	2,452	2,628	3,144	1,163	503	150	34	5	0	10,084
Sir Ddinbych	2	1,951	2,738	3,224	890	354	151	58	6	1	9,375
Sir Fflint	14	2,008	2,986	3,562	1,100	574	251	62	3	1	10,561
Wrecsam	3	2,266	4,513	3,465	933	445	188	40	13	2	11,868
Powys	6	2,193	2,819	2,301	1,015	799	412	115	13	3	9,676
Ceredigion	2	535	1,718	1,484	817	618	141	24	1	0	5,340
Sir Benfro	1	2,637	2,815	3,046	1,046	652	180	44	8	2	10,431
Sir Gaerfyrddin	24	3,990	7,060	2,675	1,209	743	243	44	2	1	15,991
Abertawe	18	8,030	8,164	3,579	1,644	621	258	45	12	7	22,378
Castell-nedd Port Talbot	26	6,656	7,986	1,410	520	198	52	12	0	0	16,860
Pen-y-bont ar Ogwr	10	4,576	4,451	2,551	1,096	417	164	27	4	2	13,298
Bro Morgannwg	2	605	2,836	3,427	1,573	702	289	103	24	5	9,566
Rhondda Cynon Taf	63	16,311	5,158	2,243	539	236	77	25	3	0	24,655
Merthyr Tudful	18	4,854	1,043	218	118	38	8	8	0	0	6,305
Caerffili	19	6,407	6,476	2,811	735	193	70	19	1	1	16,732
Blaenau Gwent	23	6,968	1,509	278	109	36	5	1	0	0	8,929
Torfaen	6	3,176	4,065	2,274	295	149	62	8	0	0	10,035
Sir Fynwy	0	174	1,672	1,680	1,352	440	252	102	35	5	5,712
Casnewydd	4	3,297	4,836	3,302	1,076	370	142	41	6	1	13,075
Caerdydd	8	2,496	8,246	9,765	6,149	2,770	890	203	27	10	30,564
Cymru	263	86,144	89,212	59,132	24,617	11,534	4,177	1,050	166	41	276,336

Ffynhonnell: Datatank

(a) Nid yw'r ffigurau'n cynnwys yr 86 o achosion lle nad yw band yr eiddo yn hysbys